BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO
CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

HWB CYDLYNU ARLOESI RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO MORGANNWG
CARDIFF AND VALE REGIONAL INNOVATION CO-ORDINATION HUB

# Contractau Cynghrair

Dull gwahanol o gomisiynu sy'n canolbwyntio ar weithio ar y cyd i gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt.

## Pŵer Trwy Bartneriaeth

Mae defnyddio contract Cynghrair yn dod â darparwyr a chomisiynwyr at ei gilydd i greu tîm integredig i arwain, cydlynu a darparu gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio i fodloni canlyniadau y cytunwyd arnynt ar y cyd. Mae contractau Cynghrair yn cyd-fynd yn gryf â chomisiynu ar sail canlyniadau a gall yrru'r newid trawsnewidiol y mae'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gweithwyr rheng flaen yn dweud wrthym eu bod am ei weld. Mae hwn yn alluogwr allweddol i drawsnewid system gyfan, gan helpu i ddatblygu system gydgysylltiedig.

## Nodweddion allweddol Cynghrair

- Mae comisiynwyr yn ymrwymo i un contract trosfwaol gyda nifer o ddarparwyr
- Mae comisiynwyr yn rhan o'r gynghrair ac yn rhannu risg a chyfleoedd gyda darparwyr
- Mae amcanion wedi'u halinio ar gyfer yr holl bartïon ac mae pawb yn ymrwymo i weledigaeth a gwerthoedd cytûn y bydd y contract yn cael ei gyflawni yn eu herbyn
- Mae'r holl bartïon yn gyfrifol ar y cyd am gyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt
- Dim manyleb gwasanaeth ond mae darparwyr yn disgrifio sut y byddant yn cyflawni'r canlyniadau, gan ganolbwyntio ar y gwahaniaethau y gall gwasanaethau eu gwneud i bobl
- Mae cydberthnasau cryf yn hanfodol a chaiff anghydfodau eu datrys o fewn y Gynghrair
- Gwneir penderfyniadau ar y cyd ar sail “beth sydd orau i'r bobl” yn hytrach na “beth sydd orau i'r sefydliad”.
- Disgwylir arloesi ac fe'i hymgorfforir yn y contract

## Mae cynghrair yn cytuno i:

- Gweithio i nod cyffredin (gweledigaeth, pwrpas, amcanion a chanlyniadau a rennir,)
- Gweithredu mewn ffordd benodol (egwyddorion, gwerthoedd ac ymddygiadau a rennir)
- Bod â chytundeb cytundebol (aliniad, ymrwymiadau a fframwaith ariannol)

## Datgloi Arloesedd

Mae contractio cynghrair yn hyrwyddo arloesedd trwy ganolbwyntio ar ganlyniadau, gyda hyblygrwydd o ran sut i gwrdd â nhw, nid yn unig wrth ddylunio gwasanaethau ond yn raddol trwy gydol y cyfnod comisiynu. Mae'r hyblygrwydd hwn yn galluogi datblygiad ac arloesedd parhaus.

## Contractio Cynghrair ar Waith

Mae Bwrdd Cynllunio Ardal Caerdydd a'r Fro yn defnyddio comisiynu cynghrair ar gyfer y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau y mae'n eu comisiynu. Mae hwn yn ddull arloesol o ddarparu cyfres benodol o wasanaethau, gan ddefnyddio model y gynghrair i ddod â darparwyr at ei gilydd dros gyfnod comisiynu deng mlynedd, gan ddechrau o 1 Awst 2022. Fel partneriaeth amlasiantaeth gyda chyllid grant penodol gan Lywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd Cynllunio Ardal yn enghraifft wych i unrhyw un sy'n awyddus i ddefnyddio contractio cynghrair yn lleol.